Pecyn Dogfennau

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD GWENER, 5 MAI 2023**

**AT: HOLL AELODAU Y PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD** A GYNHELIR YN **Y SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP AC O BELL AM 2.00 YP DYDD LLUN, 15 MAI, 2023** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM.

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Janine Owen** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224030** |
| **E-Bost:** | **JanineOwen@sirgar.gov.uk** |
| **Cyfarfod aml-leoliad yw hwn. Gall aelodau'r pwyllgor fynychu'n bersonol yn y lleoliad a nodir uchod neu o bell drwy'r ddolen Zoom a ddarperir ar wahân.** | |
| **Gellir gwylio'r cyfarfod ar wefan y cyngor drwy'r ddolen canlynol:-** https://carmarthenshire.public-i.tv/core/portal/home | |


Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

## PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD
**13 Aelodau**

**GRŴP PLAID CYMRU - 6 Aelodau**

Cyng.Karen Davies (Is-Gadeirydd)
Cyng.Arwel Davies (Aelod y Pwyllgor)
Cyng.Colin Evans (Aelod y Pwyllgor)
Cyng.Neil Lewis (Aelod y Pwyllgor)
Cyng.Dorian Phillips (Aelod y Pwyllgor)
Cyng.Gareth Thomas (Aelod y Pwyllgor)

**GRŴP LLAFUR - 5 Aelodau**

Cyng.Peter Cooper (Aelod y Pwyllgor)
Cyng.Shelly Godfrey-Coles (Aelod y Pwyllgor)
Cyng.Tina Higgins (Aelod y Pwyllgor)
Cyng.John James (Cadeirydd)
Cyng.Gary Jones (Aelod y Pwyllgor)

**GRŴP ANNIBYNNOL - 2 Aelodau**

Cyng.Sue Allen (Aelod y Pwyllgor)
Lle Gwag

# A G E N D A

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** | |
| **2.** | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.** | |
| **3.** | **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)** | |
| **4.** | **CAMAU GWEITHREDU'R PWYLLGOR CRAFFU - LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID YR HINSAWDD - 2022/23** | 5 - 10 |
| **5.** | **CYNLLUN RHEOLI STRATEGOL GLANHAU STRYDOEDD 2023** | 11 - 14 |
| **6.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNALIWYD AR 14 EBRILL 2023** | 15 - 22 |
| **7.** | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**<br>NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y PWYLLGOR AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH | |
| **8.** | **CYNLLUN BUSNES AC ADRODDIAD CYNNYDD HANNER BLWYDDYN CWM ENVIRONMENTAL LTD 2022-2023** | 23 - 64 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR CRAFFU
# LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID YR HINSAWDD

## 15 MAI 2023

| CAMAU GWEITHREDU'R PWYLLGOR CRAFFU - LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID YR HINSAWDD – 2022/23 | | |
|---|---|---|
| **Y Pwrpas:**<br>Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y camau a gymerwyd mewn ymateb i benderfyniadau a wnaed yn ystod 2022/23. | | |
| **Ystyried y materion canlynol a chyflwyno sylwadau arnynt:**<br>Craffu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chamau gweithredu, ceisiadau neu atgyfeiriadau a gofnodwyd yn ystod cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor. | | |
| **Y rhesymau:**<br>Galluogi'r aelodau i gyflawni eu rôl graffu mewn perthynas â monitro perfformiad. | | |
| **Angen cyfeirio'r mater at y Cabinet / Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad: NAC OES** | | |
| **Y Gyfarwyddiaeth:**<br>**Prif Weithredwr**<br>**Enw Pennaeth y Gwasanaeth:**<br>**Linda Rees Jones** | **Swydd:**<br><br>**Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith** | **Rhifau ffôn / Cyfeiriadau E-bost:**<br><br>01267 224010<br>lrjones@sirgar.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Janine Owen** | **Swyddog Gwasanaethau Democrataidd** | 01267 224030<br>JanineOwen@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY

# PLACE, SUSTAINABILITY AND CLIMATE CHANGE SCRUTINY COMMITTEE

# 4TH OCTOBER 2022

| PLACE, SUSTAINABILITY AND CLIMATE CHANGE SCRUTINY COMMITTEE<br>ACTIONS – 2022/23 | |
|---|---|
| The attached report provides members of the Committee with an update on the progress made in relation to actions raised and recommendations made during the 2022/23 municipal year. | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **YES – List of Actions and progress during 2022-23 Scrutiny year.** |

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Linda Rees Jones** **Head of Administration and Law**

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

| **CABINET MEMBER PORTFOLIO HOLDER AWARE/CONSULTED** | **N/A** |
|---|---|

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
|---|---|---|
| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
| Minutes | | https://democracy.carmarthenshire.gov.wales/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=134 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# Environmental and Public Protection Scrutiny Committee Actions 2022-2023

## Actions from 2022/23

| Ref No | Meeting Date | Recommendation / Action / Referral | Description | Progress Update | Member / Officer | Status |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PS&CC-01-22-23 | 4th October 2022 | **Recommendation** | **7. REVIEW OF CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL ENVIRONMENT ACT FORWARD PLAN 2020-2023**<br><br>UNANIMOUSLY RESOLVED that:<br>7.3 the Cabinet Member for Climate Change, Decarbonisation and Sustainability provides the relevant feedback in respect of the actions within the Carmarthenshire County Council's Environment (Wales) Act Forward Plan to the Committee. | Feedback on the 2020-23 Environment Act Forward Plan, to be circulated to Committee Members by e-mail before the end of August 2023. | Members of PS&CC Scrutiny<br><br>Cabinet Member for Climate Change, Decarbonisation and Sustainabiiity<br><br>R. Carmichael, Rural Conservation Manager | In progress |
| PS&CC-02-22-23 | 4th October 2022 | **Recommendation** | **8. NET ZERO CARBON PLAN PROGRESS REPORT**<br><br>UNANIMOUSLY RESOLVED TO RECOMMEND TO CABINET that:<br>8.3 future progress reports of the Net Zero Carbon Plan include the cost of savings. | We'll be publishing a new Decarbonisation / NZC Plan by 31/12/2023. Amongst other things, this will address:<br><br>PIMS Action ID: 16153 - In order to meet its net zero ambition the Council needs to fully cost its action plan and ensure that it is aligned with its Medium-Term Financial Plan<br><br>Revised target date: 31/08/2023<br><br>*See below for detailed progress update | Cabinet Member for Climate Change, Decarbonisation and Sustainabiiity<br><br>K. Davies, Sustainable Development Manager | Complete |
| PS&CC-03-22-23 | 24th November 2022 | **Recommendation** | **4. UPDATED FORWARD WORK PLAN FOR 2022/23**<br><br>UNANIMOUSLY RESOLVED that subject to the inclusion of a report on the phosphates levels in Rivers within Special Areas of Conservation (SAC), the Place, Sustainability and Climate Change Forward Work Plan the 2022/22 be endorsed.. | This was included on the Committee's FWP and considered at its meeting held on the 24th February 2023. | J. Owen, Democratic Services Officer | Complete |
| PS&CC-04-22-23 | 24th November 2022 | **Recommendation** | **9. CONSIDERATION OF ADDITIONAL PUBLIC SPACE PROTECTION ORDER (PSPO) FOR CARMARTHENSHIRE DOG ORDERS**<br><br>9.2 UNANIMOUSLY RESOLVED TO RECOMMEND TO CABINET that an additional Public Space Protection Order be introduced to ban dogs from defined sports fields located within the County. | The PSPO report was withdrawn from the Cabinet agenda held on the 12th December 2022 to further consider and reflect the observations made on the report by the Committee. Once this report is finalised the updated Cabinet recommendations will be circulated to Committee Members. | Cabinet Member for Climate Change, Decarbonisation and Sustainabiiity<br><br>D. John, Environmental Services Manager | In progress |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PS&CC-05-22-23 | 23rd January 2023 | **Recommendation** | **5. REVENUE BUDGET STRATEGY CONSULTATION 2023/24 to 2025/26**<br><br>RESOLVED that:-<br>5.4 the proposal for the introduction of parking charges at the 9 carparks as stated in the report be reviewed by the Cabinet Member on a case-by-case basis. | At its meeting held on the 1st March 2023, Council recommended that:<br><br>'The Introduction of charging at the 9 car parks that were currently free be deferred, to allow the Authority time to assess and consider the wider impact on the individual areas.' | Cabinet Member for Waste, Transport and Infrastructure Services,<br><br>Head of Transportation and Highways | Complete |
| PS&CC-06-22-23 | 23rd January 2023 | **Action arising** | **8. CARMARTHENSHIRE EQUESTRIAN STRATEGY UPDATE**<br><br>Whilst it was pleasing to note that over 500 responses had been received following the comprehensive public survey questionnaire between 21st June 2021 and 25th July 2021, it was asked if the Committee could receive a summary of the responses *[where they are from]* , to consider the data. The Head of Highways and Transportation agreed. | A breakdown of the origin of the responses to be circulated to Members. | Cabinet Member for Waste, Transport and Infrastructure Services,<br><br>Head of Transportation and Highways | In progress |
| PS&CC-07-22-23 | 14th April 2023 | **Recommendation** | **6. CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL - CORPORATE STRATEGY 2022-27**<br><br>UNANIMOUSLY RESOLVED that the Committee receive the Corporate Strategy for public scrutiny in a timely manner prior to being endorsed by full Council. | PS&CC Scrutiny Committee to include the Corporate Strategy onto its Forward Work Programme 2023/2024. Officers to advise of timeline. | Chair of PS&CC Scrutiny Committee | Complete |

*PS&CC-02-22-23 Progress:

This is the single Recommendation that the Council received from Audit Wales following publication of their report 'Public Sector Readiness for Net Zero Carbon by 2030' (July 2022).
In the absence of guidance on costing methodology the council has a draft costing ESTIMATES for its net zero plan working on a basis similar to another Local Authority in the SBCR [Swansea Bay City Region].
That estimation is however recognised to be subject to a wide degree of tolerance and we are working to produce robust £ costings by adopting the following approach:

1.Developing carbon reduction trajectories to produce various scenarios regarding our likely residual carbon emissions in 2030.
2.To estimate the corresponding £ spend to deliver carbon reductions, seeking technical support from Local Partnerships (via Welsh Government Energy Service) to develop a consistent methodology for the four SW Wales local authorities, and potentially all Welsh public bodies.
3.Our non-domestic buildings are responsible for 70% of our reported NZC emissions; consequently, our Re:Fit Cymru service provider is producing a High Level Appraisal of 30+ sites as part of our planned Phase 2 project in order to provide robust £ costs for a range of energy conservation measures.
4.To establish the cost for compensating our residual carbon emissions: (a) Welsh Government Energy Service costing five priority renewable energy opportunities on our Estate, and (b) City Science engaged to cost potential opportunities for carbon sequestration on our land holdings. We continue to lobby Welsh Government on adopting an all-Wales approach and work with other LAs to refine the estimate model.

# Y PWYLLGOR CRAFFU
# LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

## 15 MAI 2023

## CYNLLUN RHEOLI STRATEGOL GLANHAU STRYDOEDD 2023

**Y Pwrpas:** Darparu'r strategaeth, y camau gweithredu a'r ystyriaethau ar gyfer y dyfodol o ran y Gwasanaeth Glanhau Strydoedd, er mwyn darparu rhaglen glanhau amgylcheddol effeithlon i wella ansawdd yr amgylchedd yng Nghaerfyrddin gan ei gwneud yn lle mwy atyniadol i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

**GOFYNNIR I'R PWYLLGOR CRAFFU:-**

Bod y Pwyllgor Craffu yn ystyried ac yn adolygu'r adroddiad gan nodi'r heriau a'r angen i newid a moderneiddio'r gwasanaeth.

**Y rhesymau:**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r ffordd y bydd y Cyngor yn adolygu ac yn gwella'r gwasanaeth glanhau y mae'n ei ddarparu gan fodloni gofynion deddfwriaethol Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a llunio dyfodol y gwasanaeth i ddiwallu anghenion y Cynllun Rheoli Ansawdd yr Amgylchedd Lleol a dyletswyddau'r Awdurdod yn unol â Chôd Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff a Chanllawiau Cysylltiedig 2007.

**YR AELOD CABINET SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:-**
Y Cynghorydd Edward Thomas, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith.


| | | |
|---|---|---|
| Y Gyfarwyddiaeth: Lle a Seilwaith | Swyddi: | 01267 224531 |
| **Enw Pennaeth y Gwasanaeth:** Daniel W John | Penneth Dros Dro y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff. | DWJohn@sirgar.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** Gary Baxter | Rheolwr Tiroedd a Glanhau | dgbaxter@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY

# PLACE, SUSTAINABILITY AND CLIMATE CHANGE SCRUTINY COMMITTEE
# 15TH MAY 2023

## STREET CLEANSING STRATEGIC MANAGEMENT PLAN 2023

1.1 Carmarthenshire County Council recognises that maintaining high quality public places is an important issue and a major concern for local residents. Accordingly, this is reflected as a key priority in the Council's Corporate Plan.

1.2 The Council is a principal litter authority with a statutory duty under the provisions of the Environmental Protection Act 1990 to ensure that relevant land in its area is, so far as is practicable, kept clear of litter and refuse.

1.3 In order to enable the Council to achieve its objectives the services need to deliver high quality, efficient and sustainable services to ensure the future cleanliness and prosperity of the area. This has to be achieved against an increasing pressure on public finances and a need to reduce the net cost of delivery. Therefore, the way that the services are delivered has to be continuously challenged to ensure that efficiencies are achieved where possible without having an adverse impact on standards.

1.4 As the principal litter authority, Carmarthenshire County Council has a statutory duty to keep "the relevant land" clear of litter and refuse, and to keep clean its highways maintained at public expense, including the removal of detritus. These duties emanate from the Environmental Protection Act 1990.

1.5 Carmarthenshire County Council Cleansing Service is delivered by an in-house service, working from three key geographically placed depots, Trostre, Cillefwr and Glanamman and sits within the Place and Infrastructure Department of Carmarthenshire County Council with a net operating cost of circa £2.7m.

1.6 The Cleansing service has been become static in its service delivery methodology and has operated in its existing formation for a significant period, although sweeping and litter bin emptying is undertaken on planned schedules the service on a whole has become a reactionary service.

1.7 In addition, there are interdepartmental cross overs within the existing cleansing duties, whereby the Highways service will undertake certain functions of the Local Environment Quality management.

1.8 The aims of the Street Cleansing Service are to provide an efficient environmental cleansing programme not only meet the statutory duty placed upon the Authority but enhance the environmental quality within Carmarthen enhancing its attractiveness to live, work and visit, this supported by effective enforcement team and high-profile education/awareness campaigns that will ensure the cleanliness and prosperity of the area.

1.9 It is evident that there is inconsistency in our performance, and we are below the Welsh Median at present. The cleanliness Indicator for Wales gives an indication of the cleanliness of an area. Higher figures indicate cleaner environments. The All-Wales Cleanliness Indicator for 2022-23 is 68.8 and Carmarthenshire currently have a rating of 67.4 placing us 14th overall in Wales.

1.10 As a front-line service, we expect to deliver a first-class service in a proactive manner. However, at present we are a reactionary service. This approach feeds service demand and relies upon customer reports and requests. This means, we sometimes fail to meet customer demand and expectation.

1.11 In order for us to modernise and improve our service we have commenced a strategic review of the cleansing service. With a focus to develop a smarter way of interpreting the Code of Practice and develop a strategic tool to assess routes within zones on a" needs" basis.

1.12 The initial stage of our review has identified the main contributory factors of our service challenges at present are: -

- Staffing levels and recruitment
- Staff profile (agency)
- Fleet resource
- Service efficiency and cleansing approach.

1.13 We are developing a strategic plan to improve our service delivery. The vision of this plan is to provide a high quality efficient and sustainable service adding to the attractiveness of the area and promoting a Cleaner/Greener, Safer and Stronger County.

1.14 This will be achieved by evaluating existing working practices and driving efficiency saving to meet the reduction in budget yet ensure that service delivery standards are improved.

1.15 There is distinct cross over of cleansing activities with the Internal departments and the plan will take account and clarify these activities.

1.16 The quality of the local environment in particular the cleanliness of our streets and open spaces is fast becoming a benchmark for public, business and visitors in determining how an area is being managed and its attractiveness to live, work and visit. It is imperative that service delivery standard is improved to meet the expectation yet delivered against increasing pressure on public finances.

1.17 We will seek to build on existing knowledge and working practices to further improve the cleanliness of the county, the initial baseline of our service and review will mean our strategy will produce a way forward in the following key areas:

- Route rationalisation and new zoning
- Staff resources and consistent approach
- Gang structures and roles
- Inter-departmental working
- Fleet strategy
- Education
- Enforcement

1.18 The strategy in development will contain details of an exhaustive list of actions to address these issues. This strategic document will be presented to Cabinet as part of the forward work plan.

| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | **No** |
|---|---|

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:**

**Signed: D John Interim Head of Waste & Environmental Services**

| Policy, Crime & Disorder and Equalities | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing Implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

| **CABINET MEMBER PORTFOLIO HOLDER AWARE/CONSULTED:** | YES |
|---|---|

# PWYLLGOR CRAFFU
# LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

## 14 EBRILL 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
K. Davies S.M. Allen N. Lewis B.D.J. Phillips

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
T.A.J. Davies D.C. Evans T.M. Higgins G.R. Jones
G.B. Thomas

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
Cynghorydd A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd;
Cynghorydd E. Thomas, Yr Aelod Cabinet dros Transport, Gwasanaethau Trafnidiaeth,
Cynghorydd A. Lenny, Yr Aelod Cabinet dros Adnoddau;

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd;
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
J. Edwards, Rheolwr Gwella Busnes;
J. Jones, Rheolwr Cynnal a Chadw Eiddo;
R. James, Cyfrifydd Grŵp;
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau;
L. Davies, Prif Gyfieithydd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth;
D.W. John, Pennaeth Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol Dros Dro;
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 11:10yb**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2022/23

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad monitro ariannol a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Adnoddau ynghylch Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2022/23 y Gwasanaeth Lle a Seilwaith a'r Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2022.

Dywedwyd bod y gyllideb refeniw ar y cyfan yn rhagweld gorwariant cyffredinol o £593k ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelwyd gwariant net yn y gyllideb gyfalaf o £15,263k o gymharu â chyllideb net weithredol o £19,105k gan roi amrywiant o £-3,824k.

Nododd y Pwyllgor, mewn perthynas â'r adroddiad arbedion, mai'r disgwyl oedd y byddai £694k o arbedion Rheolaethol mewn perthynas â tharged o £824k yn cael ei gyflawni ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ogystal, cyflwynwyd £20k o arbedion Polisi mewn perthynas â tharged o £20k ar gyfer 2022/23 a rhagwelwyd y byddai'r rhain yn cael eu cyflawni.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- O ran gwella'r amgylchedd, cyfeiriwyd at Atodiad B lle mynegwyd pryder y gallai'r pwysau ariannol parhaus roi'r daith o ran bod yn garbon sero net yn y fantol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau y byddai'r Awdurdod Lleol yn ymdrechu'n barhaus i gyrraedd y targedau angenrheidiol.

- Cyfeiriwyd at Atodiad B yr adroddiad – Priffyrdd a Thrafnidiaeth. Mewn perthynas â'r mater o hebryngwyr croesfannau ysgol, lle nodwyd bod 'sawl swydd wedi dod yn wag ac na fyddai'r swyddi'n cael eu llenwi', gofynnwyd ai dyma'r polisi ac, os felly, a fyddai croesfannau i gerddwyr yn cael eu rhoi ar waith? Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau mai'r polisi oedd trefnu bod staff croesfannau ysgolion yn ymddeol mewn mannau lle'r oedd darpariaeth electronig ar gael. Mewn mannau lle nad oedd darpariaethau addas ar gael byddai staff croesfannau ysgol yn parhau yno.

- Cyfeiriwyd at Atodiad E yr adroddiad Seilwaith Priffyrdd Rhydaman a oedd yn nodi bod angen 'penderfyniad corfforaethol o ystyried adolygiad ffyrdd Llywodraeth Cymru', a gofynnwyd am esboniad. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth y byddai angen rhoi rhagor o ystyriaeth yn dilyn Adroddiad Ffyrdd diweddar Llywodraeth Cymru. Roedd canlyniadau'r adolygiad yn cynnwys meini prawf polisi newydd a fyddai'n golygu goblygiadau i bob cynllun ffordd yn y dyfodol.

- Cyfeiriwyd at Atodiad B yr adroddiad - Y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff. O ran y tanwariant a briodolwyd i Orfodi Materion Amgylcheddol, gofynnwyd pryd y byddai hyn yn cael ei asesu, a phryd y rhoddir gwybod am y canlyniad? Dywedodd y Pennaeth Gwastraff Dros Dro fod Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor yn ystyried yr elfennau hyn yn ei adolygiad ar Reoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin. Priodolwyd y tanwariant i staff yn gadel, lle mae trefniadau dros dro wedi'u rhoi ar waith. Nodwyd, ar ôl ystyried y strwythur adrannol, argymhellion yr adolygiad Gorchwyl a Gorffen a'r cyfyngiadau cyllidebol, y byddai'r amserlen yn debygol o fod hyd at 6 mis.

- Cyfeiriwyd at Atodiad E – Eiddo. O ran y Gwasanaeth "Tasgfan" Ysgolion, dywedwyd bod 'mwy o waith yn cael ei nodi mewn ysgolion y mae angen ei wneud', a chodwyd pryderon y gallai'r gorwariant barhau i waethygu mewn perthynas â'r ysgolion hŷn yn y Sir. Esboniodd y Rheolwr Cynnal a Chadw Eiddo mai gwaith y gwasanaeth Tasgfan oedd gwneud gwaith iechyd a diogelwch angenrheidiol yn bennaf. Fel rhan o'r gwasanaeth, roedd gofynion cynnal a chadw cynlluniedig yn cael eu nodi a byddai'r rhain yn cael eu blaenoriaethu o fewn y gyllideb sydd ar gael. Yn ogystal, roedd arolygon o gyflwr stoc yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ar draws y stoc gorfforaethol gyfan a fyddai'n rhoi trosolwg ehangach o'r gofynion ariannol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf hyd at 31 Rhagfyr yn cael ei dderbyn.**

## 5. CYNLLUN NODDI CYLCHFANNAU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar y Cynllun Noddi Cylchfannau newydd a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith.

Nodwyd y byddai'r Cynllun Noddi Cylchfannau newydd yn golygu bod modd i fusnesau noddi cylchfan yn y Sir a gweld eu cwmni'n cael ei hyrwyddo mewn lleoliadau allai fod yn amlwg iawn heb achosi costau i'r Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth yn amlinellu sut y byddai'r cynllun yn gweithio'n ymarferol ac yn ystyried unrhyw faterion cyfreithiol posib, ynghyd â sut y gellid sefydlu meini prawf diogelwch perthnasol i liniaru unrhyw risg posib i ddefnyddwyr y ffyrdd ac o bosibl i'r Cyngor.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Gofynnwyd a oedd y cynllun yn agored i ymholiadau gan fusnesau y tu allan i'r Sir. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Mewn ymateb i gwestiwn arall, esboniodd y Rheolwr Gwella Busnes y byddai gweithgor bach, a oedd yn cynnwys adrannau megis Marchnata a'r Cyfryngau a Chynllunio a Phriffyrdd, yn ystyried y ceisiadau a'r manylebau eang gan ddefnyddio matrics blaenoriaethu. Yn ogystal, nodwyd y gallai cylchfan gynnwys mwy nag un noddwr.

- Dywedwyd, er bod cynllun nawdd newydd i'w groesawu, y gobaith oedd y byddai cylchfannau yn parhau heb arwyddion gan fod perygl o gael gormod o arwyddion. Awgrymwyd y gellid cyflawni hyn drwy gael busnesau'n noddi cerfluniau ar gylchfannau yn hytrach na defnyddio llawer o arwyddion llethol.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch sut y byddai'r gystadleuaeth rhwng busnesau lleol a busnesau rhyngwladol yn cael ei rheoli, dywedodd y Rheolwr Gwella Busnes y byddai'r matrics blaenoriaethu yn ffafrio busnesau lleol ac y byddai pwysoliad y matrics yn cael ei fonitro.

- Gofynnwyd a allai busnesau llai lleol gael cost well. Esboniodd y Rheolwr Gwella Busnes, gan mai cynllun budd i'r ddwy ochr oedd hwn, roedd y prisiau a gynigir yn werth da am arian yn enwedig o ystyried yr hinsawdd bresennol.

**PENDERFYNWYD ARGYMELL I'R CABINET fod y Cynllun Noddi Cylchfannau yn cael ei gymeradwyo.**

## 6. STRATEGAETH GORFFORAETHOL - CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2022-27

Cafodd y Pwyllgor Strategaeth Gorfforaethol 2022-27 y Cyngor i'w hystyried, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd.

Roedd Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, a oedd yn cynnwys amcanion llesiant y Cyngor, yn pennu cyfeiriad a blaenoriaethau'r sefydliad dros gyfnod y weinyddiaeth bresennol. Roedd y Strategaeth yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflawni gweledigaeth ac ymrwymiadau'r Cabinet yn ystod y cyfnod hwnnw. Byddai'r strategaeth newydd yn canolbwyntio ar nifer llai o amcanion yn seiliedig ar y boblogaeth gan nodi'r blaenoriaethau thematig, blaenoriaethau gwasanaethau a galluogwyr busnes craidd y byddai'r Cyngor yn ceisio eu symud yn eu blaen yn ystod y cyfnod hwnnw.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Dywedodd y Cadeirydd, yn unol â Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor a'r adroddiad nad oedd wedi'i gyflwyno y cytunwyd yn eu cylch yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 23 Ionawr 2023, fod y Strategaeth Gorfforaethol eisoes wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2023. Yng ngoleuni hyn, parhaodd y Strategaeth Gorfforaethol yn eitem ar agenda'r Pwyllgor, gan roi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Craffu graffu arni gan feddu ar y ddealltwriaeth fod y cynllun eisoes wedi'i gymeradwyo.

  Wrth nodi bod y Strategaeth Gorfforaethol eisoes wedi'i chymeradwyo cyn i'r Pwyllgor graffu arni, cynigiwyd bod Strategaethau Corfforaethol y dyfodol yn cael eu darparu i'r Pwyllgor mewn modd amserol er mwyn i'r aelodau graffu'n briodol ar gynnwys y Strategaethau cyn iddynt gael eu cadarnhau gan y Cyngor llawn. Eiliwyd y cynnig hwn.

Gan gydnabod bod y Strategaeth eisoes wedi'i chymeradwyo, nododd yr Aelod Cabinet fod pob Aelod Etholedig wedi cael gwahoddiad i ddod i sesiwn ymgynghori a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2023 a oedd yn gyfle i'r Aelodau roi adborth ar y Strategaeth Gorfforaethol, ynghyd â'r Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2023 a'r Cyngor Llawn ar 1 Mawrth 2023.

Ni chodwyd dim cwestiynau ar gynnwys y Strategaeth Gorfforaethol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Pwyllgor yn cael y Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer craffu cyhoeddus mewn modd amserol cyn iddi gael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn.**

**7. CYNLLUNIAU CYFLAWNI IS-ADRANNOL DRAFFT 2023-24**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth Is-adrannol Drafft sy'n berthnasol i'r isadrannau o fewn y gyfarwyddiaeth Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer 2023/24 fel a ganlyn:

- Is-adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth – Atodiad 1 yr adroddiad
- Is-adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff - Atodiad 2 yr adroddiad
- Is-adran Dylunio a Chynnal a Chadw Eiddo - Atodiad 3 yr adroddiad
- Is-adran Lle a Chynaliadwyedd - Atodiad 4 yr adroddiad
- Is-adran Gwella Gwasanaethau a Thrawsnewid - Atodiad 5 yr adroddiad

Roedd y Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth Is-adrannol Drafft yn pennu'r camau a'r mesurau strategol i'w gweithredu ym mhob isadran er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i amcanion llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor am bob Cynllun Is-adrannol Drafft, fel a ganlyn:

<u>Cynllun Cyflawni Is-adrannol - Priffyrdd a Thrafnidiaeth</u>
<u>[Atodiad 1 yr adroddiad]</u>

- Cyfeiriwyd at y Cam Gweithredu a'r Mesur o fewn yr adran Rheoli Asedau Priffyrdd - 'ar ôl i gyllid Llywodraeth Cymru gael ei dynnu yn ôl, archwilio'r holl opsiynau ariannu posibl i gefnogi rhaglen o wella cyflwr ffyrdd gwledig.' Gofynnwyd pa opsiynau ariannu oedd yn cael eu hystyried. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith fod gan Sir Gaerfyrddin y rhwydwaith priffyrdd ail fwyaf yng Nghymru sy'n cynnwys ffyrdd B, ffyrdd C a ffyrdd diddosbarth yn bennaf, a oedd mewn cyflwr gwael a bod gwaith sylweddol heb ei wneud. Pwysleisiwyd bod yn rhaid chwilio am ddulliau ariannu amgen.

  Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod y mater hwn o ganlyniad i Brosiect Cyni Llywodraeth y DU, ond pan ddechreuwyd torri cyllidebau yn 2010, y rhwydwaith priffyrdd a dargedwyd gyntaf. O ganlyniad, mae amodau'r rhwydwaith ffyrdd wedi dirywio gyda diffyg o £45m, sef yr hyn sydd ei angen i gynnal a chadw'r ffyrdd. Dywedwyd bod hyn yn ymestyn y tu hwnt i Sir Gaerfyrddin.

O ran cyllid yn y dyfodol, dywedodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod cyllid wedi ei sicrhau drwy gyflwyno ceisiadau i gael mynediad at gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn atgyweirio ffyrdd a gafodd ddifrod mewn stormydd. Yn ogystal, cyflwynwyd ceisiadau i gael mynediad at gyllid ar gyfer adnewyddu ffyrdd a ffyrdd cydnerth. Sicrhawyd yr Aelodau y byddai ceisiadau'n cael eu cyflwyno i gael cyllid i wella'r rhwydwaith ffyrdd cyn gynted ag y cyhoeddir cyfleoedd i gael cyllid grant.

- Gan gydnabod llwyth gwaith trwm yr adran briffyrdd, canmolwyd y tîm priffyrdd am ymateb yn gyflym i adroddiadau o amodau ffyrdd peryglus, a diolchwyd i'r tîm.

- Mewn ymateb i ymholiad a wnaed mewn perthynas â'r 'ffynhonnell gyfeirio' o fewn y cynllun, esboniodd yr Aelod Cabinet fod gan y cynlluniau ddyluniad newydd er mwyn cyd-fynd yn well â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant ynghyd â gweledigaeth y Cabinet.

- Cyfeiriwyd at y Cam Gweithredu a'r Mesur o fewn yr adran Cynllunio a Seilwaith - *'Adolygu'r strategaeth fflyd cerbydau bresennol gyda'r bwriad o ddefnyddio'r dechnoleg cerbydau mwyaf addas ac allyriadau isel (gan gynnwys ffynonellau trydan neu ffynonellau pŵer eraill) dros y blynyddoedd nesaf.'* O ran gosod targedau, gofynnwyd bod uchelgais addas yn cael ei phennu. Awgrymwyd, o ran gosod targedau, fod modd cyrchu llawer o ffynonellau arbenigedd allanol a allai fod yn gost-effeithiol. Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd y brwdfrydedd ac awgrymodd y gallai'r Pwyllgor, wrth ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith, ofyn am wybodaeth i fonitro datblygiad a chyflymder y gwaith ar y pwnc hwn.

<u>Cynllun Cyflawni Is-adrannol - Is-adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff [Atodiad 2 yr adroddiad]</u>

- Ni chodwyd dim materion/sylwadau gan y Pwyllgor.

<u>Cynllun Cyflawni Is-adrannol - Is-adran Dylunio a Chynnal a Chadw Eiddo [Atodiad 3 yr adroddiad]</u>

- Ni chodwyd dim materion/sylwadau gan y Pwyllgor.

<u>Cynllun Cyflawni Is-adrannol - Is-adran Lle a Chynaliadwyedd [Atodiad 4 yr adroddiad]</u>

- Ni chodwyd dim materion/sylwadau gan y Pwyllgor.

<u>Cynllun Cyflawni Is-adrannol - Is-adran Gwella Gwasanaethau a Thrawsnewid</u>
[Atodiad 5 yr adroddiad]

- Ni chodwyd dim materion/sylwadau gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynlluniau Is-adrannol Drafft ar gyfer 2023/24 yn cael eu derbyn.**

8. **DRAFFT CYNLLUNIAU CYFLAWNI GWASANAETH 2023-24 I TAI A DIOGELU'R CYHOEDD**

Derbyniodd y Pwyllgor Gynllun Cyflawni Gwasanaeth Is-adrannol Drafft 2023-24 ar gyfer Tai a Diogelu'r Cyhoedd sy'n berthnasol i'r gyfarwyddiaeth Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd. Roedd y cynllun yn pennu'r camau a'r mesurau strategol i'w cyflwyno er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i Amcanion Llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, croesawodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd faterion/ymholiadau mewn perthynas ag elfen Diogelu'r Cyhoedd y cynllun is-adrannol fel cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu hwn.

Ni chodwyd dim materion/sylwadau gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Cynlluniau Is-adrannol Drafft 2023-24 ar gyfer Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn cael eu derbyn.**

9. **PEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU**

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad craffu ynghylch y Cynllun Cyflawni ar gyfer Diogelwch Cymunedol/Trosedd ac Anhrefn. Y dyddiad cyflwyno diwygiedig yw 30 Mehefin 2023.

**PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.**

11. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 CHWEFROR 2023**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2023 yn gywir.**

10. **EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

Adolygodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf i'w gynnal ar 15 Mai 2023, a oedd wedi deillio o Flaengynllun Gwaith y Pwyllgor am 2022/23. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod y Blaengynllun Gwaith yn ddogfen hyblyg y gellid ei diweddaru yn ôl y gofyn trwy gydol y flwyddyn wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r adroddiadau canlynol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ar 15 Mai 2023:-

- Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ynghylch Rheoli Tipio Anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin gan fod yr adroddiad yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd.
- Cynllun Busnes CWM Environmental 2022-23, oherwydd amgylchiadau personol cynrychiolydd Cwm Amgylcheddol.

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 15 Mai, 2023.**

**11. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 CHWEFROR 2023**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2023 yn gywir.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | ____________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |

Yn rhinwedd paragraff(au) 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(au) 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(au) 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol